

Ymdeimlo â phobl

“Bydded gofal gan bob un ohonoch, nid am eich buddiannau eich hunan yn unig ond am fuddiannau pobl eraill hefyd.” (adn. 4)

Beth am ddarllen Philipiaid 2:1–11 ac yna myfyrio

Yr ydym yn parhau i edrych ar ymateb y Cristnogion yn Antiochia i angen y credinwyr yn Jerwsalem ynghanol y newyn. Mae Eugene Peterson yn *The Message* yn cyfieithu Actau 11:28–29 fel hyn: “Safodd Agabus i fyny un diwrnod ac wedi ei gymell gan yr Ysbryd, dyma rybuddio’r bobl fod yna newyn mawr yn mynd i lethu y wlad. Felly, penderfynodd y disgyblion ddanfôn beth bynnag oedd ganddyn nhw i’w cyd-Gristnogion yn Jerwsalem. Mae’r gair ‘Felly’ yn nodi’r pwyslais y gallwn ni yn aml ei osgoi. Roedd y newyn ar ddod... felly. Mae’n ymddangos fod y Cristnogion yma wedi ymateb i’r angen, nid oherwydd bod yna wledd i godi arian wedi ei chynnal, nag ychwaith oherwydd bod yna apêl emosiynol wedi ei chyflwyno. Doedd neb wedi gofyn, doedd yna neb wedi areithio yn wych. Y cyfan a ddigwyddodd oedd fod y bobl yma yn ymdeimlo ag angen.

Mae’n bwysig i’r Cristion feddu ar yr ymdeimlad yma. Mae’n siŵr y medwrch fesur i ba raddau yr ydych yn ofalus o eraill drwy ofyn y cwestiwn: “Beth yw lled a beth yw dyfnder fy ngofal i?” Mae rhai pobl ond yn ymdeimlo â’u hangen eu hunain. Maent yn byw mewn cyflwr lle yr hunan yw’r unig un sydd yn bwysig, ac, felly, mae eu bywyd yn adlewyrchu bywyd isel iawn. Mae eraill ond yn ymdeimlo â’r bobl hynny y maent yn byw neu’n gweithio gyda nhw, er enghraifft, teulu a chyfeillion. Gellir dweud eu bod nhw wedi codi i dir ychydig yn uwch. Mae eraill yn ymdeimlo ag angen eu dosbarth cymdeithasol neu eu cenedl. Mae’r rhain ychydig yn uwch eto.

Mae bod yn Gristion, yn ôl un hen bregethwr Cymraeg, yn golygu ein bod yn ymdeimlo ag angen pob un, hyd yn oed ein gelynyon. Mae’r sylw yma bob amser yn fy herio i oherwydd, er nad wyf yn ymwybodol fod gennyf elynion, tybiaf petai gennyf elyn, y dylwn fod yn ymdeimlo â’i angen, yn ofalus o’r hyn y mae yn ei feddwl, yn ofalus o’i les. Pa mor uchel mae ein bywyd ni wedi cyrraedd? Pa mor lydan a dwfn yw ein gofal ni?

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Bren. 6:8–23; 2 Cron. 28:8–15; Math. 5:39–48; Rhuf. 12:14–21

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut bu i Eliseus ofalu am ei elynion?
2. Beth mae gofalu am ein gelynyon yn ei wneud i’n gelynyon, a beth mae yn ei wneud i ni?

Gweddi

O Dad, os yw’n angenrheidiol i’r Cristion ymdeimlo ag angen, mae angen ymdeimlo ag angen pob dyn, hyd yn oed fy ngelynyon. Cynorthwya fi i fod yn fwy gofalus, i feddwl am eraill yn hytrach nag amdanaf fi fy hun. Yn enw Iesu. Amen.